# SL(6)027 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”).

Mae Rheoliad 16 o'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i’r person sy’n gyfrifol am fangreoedd rheoleiddiedig yn yr awyr agored i gymryd pob mesur rhesymol i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws, yn arbennig i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng pobl yn y fangre. Mae'r gofyniad hwn bellach yn berthnasol i fangreoedd dan do yn unig. Fodd bynnag, mae dyletswydd o hyd i’r person cyfrifol gymryd mesurau rhesymol i gyfyngu ar ryngweithio corfforol agos rhwng pobl yn y fangre.

Mae rheoliad 16 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad risg coronafeirws. Mae'r Rheoliadau hyn bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ddarparu gwybodaeth i'w gweithwyr am y risgiau a nodwyd yn yr asesiad a'r mesurau atal a diogelu sy'n cael eu rhoi ar waith.

Mae Rheoliad 17 o'r prif Reoliadau yn nodi mesurau penodol y mae'n rhaid i bobl sy'n gyfrifol am fangreoedd trwyddedig eu cymryd. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r gofynion fel nad oes rhaid i bersonau sy’n mynd i gynulliadau neu ddigwyddiadau rheoleiddiedig mewn mangreoedd o’r fath, bellach, eistedd wrth fwyta neu yfed diod. Mae'r un sefyllfa'n berthnasol i fathau eraill o ddigwyddiad: dangos ffilm, digwyddiad chwaraeon byw, a pherfformiad theatrig byw. Mae'r gofyniad i fod wedi eistedd mewn mangreoedd trwyddedig yn parhau i fod mewn grym ym mhob amgylchiad arall.

Gwneir y newidiadau canlynol i Atodlen 1. Mae'r Atodlen hon yn ymwneud â Rhybudd Lefel 1 sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i Gymru gyfan.

Caniateir i unrhyw chwe pherson, neu aelodau o unrhyw ddwy aelwyd (ni waeth pa faint ohonynt sydd) i ymgynnull o dan do mewn anheddau preifat a llety gwyliau, hyd yn oed os nad ydynt yn aelodau o’r un aelwyd neu aelwyd estynedig.

Caniateir i ddigwyddiadau rheoleiddiedig o dan do gael eu trefnu ar gyfer hyd at 1,000 ar eu heistedd neu 200 yn sefyll (yn ddarostyngedig i’r gofynion a nodir yn Rheoliad 16 o’r prif Reoliadau – fel yr esbonnir uchod).

Mae'r terfyn blaenorol o 30 ar nifer y bobl y caniateir iddynt ymgynnull ym mhob mangre awyr agored yn cael ei ddileu (yn ddarostyngedig i’r gofynion a nodir yn Rheoliad 16 o’r prif Reoliadau – fel yr esbonnir uchod). Caniateir i hyd at 30 o blant (nid dim ond plant

ysgol gynradd, fel oedd yr achos yn flaenorol) i ymgynnull mewn llety gwyliau neu lety teithio at ddibenion cynulliadau llesiant, datblygol neu addysgol. Caniateir i rinciau sglefrio iâ ailagor.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur… Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny.*"

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

**3. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Aiff ymlaen i nodi y paratowyd crynodeb o asesiad o'r effaith ac y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.